# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Glanrafon

Dyddiad yr arolygiad: 19/01/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Glanrafon yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol, ac mae'n chwarae rhan ganolog yn ei chymuned leol. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac wedi sefydlu gweledigaeth gynhwysfawr sy'n blaenoriaethu cynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn cefnogi ymddygiad da ar draws yr ysgol, gyda disgyblion yn dangos parch, caredigrwydd a balchder amlwg at ei gilydd a'u hysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gweithredu'n effeithiol, gan gefnogi'r ysgol yn frwdfrydig a herio arweinwyr yn briodol. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gwerthuso'r ddarpariaeth yn fwriadus.

Mae'r gofal a'r gefnogaeth emosiynol a ddarperir gan staff yn gryfder nodedig. Maent yn adnabod disgyblion yn dda ac yn ymateb yn sensitif i'w hanghenion unigol. Mae hyn yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae'r cwricwlwm yn eang, cytbwys ac ysgogol, gyda chyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion weithio'n greadigol ac ymgysylltu â dysgu yn yr awyr agored. Mae'r addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae cyflymder pwrpasol i'r sesiynau dysgu ac mae profiadau'n herio disgyblion yn effeithiol. Ar y cyfan, mae'r adborth gan staff i ddisgyblion yn eu cynorthwyo i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Er hyn, nid yw'r adborth bob tro'n cefnogi disgyblion i wella eu gwaith ysgrifenedig yn ddigon cyson.

Mae disgyblion yn cyfrannu syniadau'n frwd am yr hyn y maent yn dymuno ei ddysgu ac yn dyfalbarhau i weithio'n annibynnol. Er hyn, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gynllunio ac i wneud penderfyniadau yn annibynnol am eu dysgu wedi'u gwreiddio'n llawn hyd yma.

Mae datblygiad medrau darllen a mathemateg disgyblion yn gryfderau amlwg. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl, yn defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr testun yn fedrus ac yn cymhwyso'u medrau rhif yn hyderus ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn y dosbarth arbenigol yn gweithio'n hynod gadarnhaol gyda staff a chyfoedion, ac maent yn ymddwyn yn dda. Maent yn meithrin eu hyder yn gyson ac yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r ddarpariaeth gynhwysol, gan gynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ymuno â dosbarthiadau'r prif ffrwd, yn cefnogi ymdeimlad cryf o berthyn ac yn cryfhau medrau cymdeithasol a chyfathrebu'r disgyblion yn fwriadus.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud penderfyniadau am beth a sut maent yn dysgu

A2 Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella eu gwaith ysgrifenedig

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026